**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Chwefror 2019 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Durke | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | P K Jones |
| E T Kirchner | W G Lewis | S Pritchard |
| G J Tanner | W G Thomas | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

D Anderson-Thomas A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C Anderson

### 108 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

### 109 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 110 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

### 111 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 112 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd (y Cynghorydd Mark Thomas).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad ar benawdau allweddol ei bortffolio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol:

*Baw Cŵn*
- Bu problemau staffio dros gyfnod y Nadolig a effeithiodd ar gasgliadau biniau baw cŵn oherwydd bod casgliadau gwastraff cartref wedi’u blaenoriaethu dros y cyfnod hwn. Roedd gwersi wedi'u dysgu a rhagwelwyd na fyddai'r sefyllfa yn codi eto’r Nadolig nesaf;
- Y broses gasglu ar gyfer biniau baw cŵn;

*Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon*
- Y gost o glirio "mannau cyffredin" tipio anghyfreithlon rheolaidd ac a allai cynllun tebyg i amnest wneud gwahaniaeth;

*Iechyd yr Amgylchedd*
- Roedd y cynnydd yn nifer y llygod mawr a adroddwyd y llynedd yn gysylltiedig â'r tywydd cynnes anarferol yn hytrach nag unrhyw broblemau sylfaenol. Ailadroddwyd mai Cyngor Abertawe oedd un o'r ychydig awdurdodau a oedd heb godi tâl am y gwasanaeth hwn eto;
- Ni fyddai unrhyw newidiadau i wiriadau a gweithdrefnau diogelwch bwyd mewn ysgolion yn dilyn Brexit;
- A ystyriwyd holl faterion preifatrwydd mewn perthynas â chasglu data mewn perthynas â'r astudiaeth gydweithredol bosibl â Phrifysgol Abertawe a Vortex Internet of Things a fyddai'n edrych ar gasglu data ansawdd aer, traffig a pharcio cyfredol, lleol yng nghanol y ddinas;

*Priffyrdd ac Isadeiledd*
- Polisi/proses ar gyfer cyrbau wedi'u gostwng - oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen gostwng mwy o gyrbau i'r henoed, yn enwedig yn ward y Castell. Yn ychwanegol, dylid ystyried hyn yn ystod y cam cyflwyno cais cynllunio ar gyfer adeiladau newydd;

*Lleihau Tlodi*
- Roedd hon yn ystyriaeth drawsbynciol i holl Bortffolios y Cabinet ei hystyried;

*Claddedigaethau ac Amlosgiadau*
- Trafodwyd yr opsiynau niferus sydd ar gael i'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwahanol;

*Mynediad i gefn gwlad*
- A ellid archwilio unrhyw grantiau/arian ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r tîm bach iawn;

*Cynnal a chadw'r Marina, y Blaendraethau a Thraethau*
- Holwyd am y rheswm dros y problemau gyda cholli tywod yn Knab Rock;

*Gwaredu Gwastraff Niwclear*
- Byddai'r awdurdod yn ystyried ei ymateb llawn i'r ymgynghoriad maes o law.

Cafwyd cwestiwn hefyd gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â graddfa ehangu'r brifysgol a'i effaith ar gymunedau a theuluoedd lleol drwy dai amlfeddiannaeth. Nododd Aelod y Cabinet y pryderon a nododd fod ei gyfrifoldebau portffolio mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth wedi'u cyfyngu i orfodi o ran materion amgylcheddol megis gwastraff, sŵn a diogelwch a diffyg cydymffurfiad ag amodau trwyddedu gan landlordiaid/denantiaid, ond byddai aelodau eraill y Cabinet mewn sefyllfa well i roi sylwadau ar y materion a godwyd.

**Penderfynwyd** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan fyfyrio ar y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 113 Adroddiad Ymchwiliad Craffu Terfynol: Yr Amgylchedd Naturiol (Y Cynghorydd Peter Jones, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Jones, y Cynullydd, adroddiad terfynol yr ymchwiliad craffu i'r Amgylchedd Naturiol.

Diolchodd i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, am ei gefnogaeth ar y pwnc hwn ac am gymorth a chyfraniad amhrisiadwy y Swyddog Craffu, Bethan Hopkins, wrth gefnogi'r ymchwiliad.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y cydbwysedd rhwng adfywio economaidd a'r amgylchedd a'r gwrthdaro a all fodoli rhwng datblygu a diogelu'r amgylchedd.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y cydbwysedd rhwng adfywio economaidd a'r amgylchedd a gwrthdaro a all fodoli rhwng datblygu a diogelu'r amgylchedd.

Cymeradwyodd y Cadeirydd yr adroddiad cynhwysfawr a bu'n canmol y Panel Ymchwilio am ei waith.

**Penderfynwyd** cytuno ar yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.

## 114 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad:

Darparodd y Cynullydd Peter Black adroddiad am y diweddaraf ar Banel Perfformiad Gwasanaethau i Oedolion.

Cyfeiriodd yn benodol at bryderon ynghylch Gofal Cartref Tymor Hir, Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, ac Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Dywedodd y byddai cyfarfod â Bwrdd Iechyd PABM ar 26 Mawrth, a aildrefnwyd o fis Ionawr, i drafod newidiadau i gwmpas rhanbarthol y bwrdd iechyd a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 115 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

**Penderfynwyd:**

1) Panel Ymchwilio Cydraddoldeb - tynnu enw'r Cynghorydd L V Walton;
2) Gweithgor Twristiaeth - ychwanegu enwau'r Cynghorwyr C Anderson ac R D Lewis;
3) Gweithgor Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - ychwanegu enw'r Cynghorydd C Anderson, tynnu enw'r Cynghorydd E W Fitzgerald;
4) Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio - tynnu enw'r Cynghorydd G J Tanner.

## 116 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am 'Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol'.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor.

## 117 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2018/19.

Byddai Sesiwn Holi Aelod y Cabinet ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu gydag Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i gwestiynau.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r pwyllgor hefyd y byddai'r sesiwn Craffu ar Droseddu ac Anhrefn flynyddol yn debygol o gael ei ychwanegu at y cyfarfod pwyllgor a drefnwyd eisoes ar gyfer 8 Ebrill. Ychwanegodd fod gwaith Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn berthnasol i sesiwn holi Aelod y Cabinet a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

## 118 Llythyrau craffu.

Adroddodd y Cadeirydd am log y llythyrau craffu. Roedd yr ohebiaeth yn ymwneud â phresenoldeb Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant yng nghyfarfod mis Tachwedd 2018.

Nodwyd y log a'r llythyrau.

## 119 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

Darparwyd y Cynllun Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

## 120 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

Rhoddwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.50 pm

**Cadeirydd**